**PRIFFYRDD, CYMRU**

# 2014 Rhif. 18

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEOL ABERTHAW AC ALLT PENKIN, CASNEWYDD) 2014**

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Gorffennaf 2014* |
| *Yn dod i rym* | *17 Gorffennaf 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Heol Aberthaw ac Allt Penkin, Casnewydd) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" *("the Council")* yw Cyngor Dinas Casnewydd;

ystyr "y datblygwr" *("the developer")* yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" *("the 1990 Act")* yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" *("the deposited plan")* yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Heol Aberthaw ac Allt Penkin, Casnewydd) 2014" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Priffyrdd**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o brifforddd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r brifffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2009 o dan y cyfeirnod 09/0910 ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Priffyrdd Newydd/y Gwneir Gwelliannau Iddynt**

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 3 ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, a bydd y priffyrdd hyn, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(2)**, yn briffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

**Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Priffyrdd ac ar gyfer Darparu neu Wella'r Priffyrdd**

**4.** Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhannau o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a’r rhai y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 2 a 3;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r priffyrdd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau’r rhan o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Gorffennaf 2014

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau eu bod yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
**(2)** 1980 p.66

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

## ATODLEN 1

### Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r gogledd o'r enw Heol Aberthaw, sy'n ymestyn tua'r dwyrain o bwynt 12.4 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd ag Aberthaw Rise, sydd â'i hyd mwyaf yn 76 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 262 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod A ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r de o'r enw Allt Penkin, sy'n ymestyn tua'r dwyrain o'i chyffordd â Heol Ladyhill, sydd â'i hyd mwyaf yn 73 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 9 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 277 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod B ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

### Disgrifiad o'r priffyrdd newydd sydd i'w darparu

Ffordd fynediad newydd sy'n ymestyn tua'r dwyrain o linell ymyl ddwyreiniol Aberthaw Rise wedi ei lleoli 77.5 o fetrau o'i chyffordd ag Heol Aberthaw, sydd â'i hyd mwyaf yn 64 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 5.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 435 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod C ar y plan a adneuwyd.

Ffordd fynediad newydd sy'n ymestyn tua'r gorllewin o linell ymyl orllewinol Aberthaw Rise wedi ei lleoli 34 o fetrau o'i chyffordd â Heol Aberthaw, sydd â'i hyd mwyaf yn 37 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 229 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod D ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

### Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r gogledd o'r enw Heol Aberthaw, sy'n ymestyn tua'r dwyrain o bwynt 10.9 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd ag Aberthaw Rise, sydd â'i hyd mwyaf yn 76 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.2 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 238 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod E ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhan o ffin y briffordd i'r de-orllewin o'r enw Allt Penkin, sydd â'i hyd mwyaf yn 23.2 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.8 o fetrau, a chyfanswm ei harwynebedd yn 96.2 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod F ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhan o ffin y briffordd i'r de-orllewin o'r enw Allt Penkin, sydd â'i hyd mwyaf yn 5.5 metr, a'i lled mwyaf yn 4.8 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 18.2 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod G ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r de o'r enw Allt Penkin a ffin y briffordd i'r de-ddwyrain o'r enw Heol Ladyhill, sydd â'i hyd mwyaf yn 110 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.3 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 295 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod H ar y plan a adneuwyd.

Rhan petryal ei siâp o'r briffordd a gaiff ei chynnwys bellach yn y briffordd newydd o'r enw Aberthaw Rise, sydd â'i hyd mwyaf yn 7.8 metr, a'i lled mwyaf yn 1.6 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 11.1 o fetrau sgwâr, ac sy’n dwyn y cyfeirnod I ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffin y briffordd i’r dwyrain a gaiff ei chynnwys bellach yn y briffordd newydd o'r enw Aberthaw Rise o'i chyffordd â Heol Aberthaw, sydd â'i hyd mwyaf yn 49.5 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 2.7 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 105 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod J ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

### Y Datblygiad

Codi 64 o anheddau yn cynnwys 46 o dai dwy, tair a

phedair ystafell wely a 18 o fflatiau un a dwy ystafell wely.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEOL ABERTHAW AC ALLT PENKIN, CASNEWYDD) 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfa Streetscene, Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1125279/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf,

o fewn 6 wythnos i 17 Gorffennaf 2014, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: ‘Deddfwriaeth’, ‘Is-ddeddfwriaeth’, ‘Deddfwriaeth Ddrafft’, ‘Offerynnau Anstatudol Drafft’, ‘Gorchmynion Cau Priffyrdd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref’, ‘2014’).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M Burnell*

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

## ATODLEN 1

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r gogledd o'r enw Heol Aberthaw, sy'n ymestyn tua'r dwyrain o bwynt 12.4 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd ag Aberthaw Rise, sydd â'i hyd mwyaf yn 76 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 262 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod A ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r de o'r enw Allt Penkin, sy'n ymestyn tua'r dwyrain o'i chyffordd â Heol Ladyhill, sydd â'i hyd mwyaf yn 73 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 9 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 277 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod B ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu**

Ffordd fynediad newydd sy'n ymestyn tua'r dwyrain o linell ymyl ddwyreiniol Heol Aberthaw wedi ei lleoli 77.5 o fetrau o'i chyffordd â Heol Aberthaw, sydd â'i hyd mwyaf yn 64 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 5.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 435 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod C ar y plan a adneuwyd.

Ffordd fynediad newydd sy'n ymestyn tua'r gorllewin o linell ymyl orllewinol Aberthaw Rise wedi ei lleoli 34 o fetrau o'i chyffordd â Heol Aberthaw, sydd â'i hyd mwyaf yn 37 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 229 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod D ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r gogledd o'r enw Heol Aberthaw, sy'n ymestyn tua'r dwyrain o bwynt 10.9 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd ag Aberthaw Rise, sydd â'i hyd mwyaf yn 76 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.2 metr, a

chyfanswm ei harwynebedd yn 238 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod E ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhan o ffin y briffordd i'r de-orllewin o'r enw Allt Penkin, sydd â'i hyd mwyaf yn 23.2 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.8 o fetrau, a chyfanswm ei harwynebedd yn 96.2 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod F ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhan o ffin y briffordd i'r de-orllewin o'r enw Allt Penkin, sydd â'i hyd mwyaf yn 5.5 metr, a'i lled mwyaf yn 4.8 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 18.2 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod G ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o lain a llwybr troed ar ffin y briffordd i'r de o'r enw Allt Penkin a ffin y briffordd i'r de-ddwyrain o'r enw Heol Ladyhill, sydd â'i hyd mwyaf yn 110 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.3 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 295 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod H ar y plan a adneuwyd.

Rhan petryal ei siâp o'r briffordd a gaiff ei chynnwys bellach yn y briffordd newydd o'r enw Aberthaw Rise, sydd â'i hyd mwyaf yn 7.8 metr, a'i lled mwyaf yn 1.6 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 11.1 o fetrau sgwâr, ac sy’n dwyn y cyfeirnod I ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffin y briffordd i’r dwyrain a gaiff ei chynnwys bellach yn y briffordd newydd o'r enw Aberthaw Rise o'i chyffordd â Heol Aberthaw, sydd â'i hyd mwyaf yn 49.5 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 2.7 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 105 o fetrau sgwâr ac sy’n dwyn y cyfeirnod J ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

## Y Datblygiad

Codi 64 o anheddau yn cynnwys 46 o dai dwy, tair a phedair ystafell wely a 18 o fflatiau un a dwy ystafell wely, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 9 Rhagfyr 2009 o dan gyfeirnod 09/0910.